OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 3066 (Cy.263)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *23 Hydref 2007* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *26 Hydref 2007* |
| *Yn dod i rym - -* | *12 Rhagfyr 2007* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 197, 210 a 214 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac a freiniwyd(**2**) bellach ynddynt yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007 a deuant i rym ar 12 Rhagfyr 2007.

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**3.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall:

ystyr “amgylchiadau perthnasol” (“*relevant circumstances*”) yw'r amgylchiadau a nodir yng Ngholofn 1 o'r Tabl yn Atodlen 2;

ystyr “datganiad” (“*statement*”) yw datganiad a lunnir gan awdurdod addysg lleol o dan adran 197(3) o Ddeddf 2002;

ystyr “Deddf 1996” (“*the 1996 Act*”) yw Deddf Addysg 1996(**3**);

ystyr “Deddf 1998” (“*1998 Act*”) yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**4**);

ystyr “Deddf 2002” (“*2002 Act*”) yw Deddf Addysg 2002;

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) 1996 p.56. .
(**4**) 1998 p.31.

ystyr "Deddf 2005" ("*2005 Act*") yw Deddf Addysg 2005(**5**);

ystyr "dyddiad perthnasol" ("*relevant date*") yw'r dyddiad a nodir yn y cofnod sy'n cyfateb i bob amgylchiad perthnasol yng Ngholofn 2 o'r Tabl a nodir yn Atodlen 2; ac

ystyr "ysgol" ("*school*") yw ysgol gymunedol, ysgol sefydledig, neu ysgol wirfoddol, ysgol arbennig gymunedol, ysgol arbennig sefydledig neu ysgol feithrin a gynhelir.

(2) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad at reoliad neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at reoliad neu Atodlen yn y Rheoliadau hyn sy'n dwyn y rhif hwnnw.

### Cytundebau partneriaeth

**4.** Yn ddarostyngedig i adran 197(3) o Ddeddf 2002, rhaid i awdurdod addysg lleol wneud cytundeb partneriaeth gyda chorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod addysg lleol hwnnw.

**5.** Rhaid i gytundeb partneriaeth nodi sut y mae'r awdurdod addysg lleol a chorff llywodraethu ysgol a gynhelir gan yr awdurdod addysg lleol i gyflawni eu priod swyddogaethau mewn perthynas â'r ysgol o ran y materion a nodir yn Adran 1.

**6.** Rhaid i'r cytundeb partneriaeth cyntaf gael ei wneud ar 31 Mawrth 2008 neu cyn hynny.

**7.** Os na wnaed cytundeb partneriaeth ac os na luniwyd datganiad o ran ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol ar 31 Mawrth 2008 neu cyn hynny neu ar 1 Medi neu cyn hynny mewn unrhyw flwyddyn olynol, rhaid gwneud cytundeb partneriaeth wedi hynny o ran yr ysgol honno ar 1 Medi neu cyn hynny yn y flwyddyn ganlynol.

### Adolygu cytundebau partneriaeth a datganiadau

**8.** Rhaid i'r partïon i gytundeb partneriaeth adolygu'r cytundeb partneriaeth a chânt ei ddiwygio—

(a) cyn pen y cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau gyda'r diwrnod pan wnaed y cytundeb gyntaf; a

(b) ar ôl hynny bob tair blynedd ar y mwyaf.

**9.** Pan fo awdurdod addysg lleol wedi llunio datganiad rhaid iddo ei adolygu a chaiff ei ddiwygio –

(a) cyn pen cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau gyda'r diwrnod pan anfonwyd y datganiad gyntaf i'r corff llywodraethu; a

(b) ar ôl hynny bob tair blynedd ar y mwyaf.

**10.** Yn ddarostyngedig i reoliad 11, pan fo amgylchiadau perthnasol yn codi o ran ysgol, rhaid i'r awdurdod addysg lleol a chorff llywodraethu'r ysgol adolygu unrhyw gytundeb partneriaeth neu ddatganiad sydd yn bodoli eisoes, a chânt ei ddiwygio, cyn pen y cyfnod o chwe mis ar ôl y dyddiad perthnasol.

**11.** Pan fo amgylchiadau perthnasol pellach yn codi o ran ysgol cyn i adolygiad o gytundeb partneriaeth neu ddatganiad o dan reoliad 10 gael ei gwblhau, nid yw'n ofynnol i'r awdurdod addysg lleol a'r corff llywodraethu ond dod ag un adolygiad i ben y mae'n rhaid ei gwblhau cyn pen blwyddyn ar ôl y dyddiad perthnasol o ran y diweddaraf o'r amgylchiadau perthnasol a gododd, sef y dyddiad sydd hefyd yn ddyddiad perthnasol at ddibenion rheoliadau 12 a 13.

**12.** Pan, ar ôl i gytundeb partneriaeth gael ei adolygu o dan reoliad 10,

(a) na fo cytundeb partneriaeth diwygiedig i'w wneud, a

(b) na fo datganiad i'w lunio,

(**5**) 2005 p.18.

mae'n ofynnol i'r awdurdod addysg lleol a'r corff llywodraethu adolygu'r cytundeb partneriaeth nesaf, a chânt ei ddiwygio, cyn pen y cyfnod o bedair blynedd sy'n dechrau ar ôl y dyddiad perthnasol ac wedi hynny bob tair blynedd ar y mwyaf.

**13.** Pan, ar ôl i ddatganiad gael ei adolygu o dan reoliad 10,

(a) na fo cytundeb partneriaeth i gael ei wneud, a

(b) na fo datganiad diwygiedig i'w lunio,

mae'n ofynnol i'r awdurdod addysg lleol a'r corff llywodraethu adolygu'r datganiad nesaf, a chânt ei ddiwygio, cyn pen cyfnod o bedair blynedd cyn y dyddiad perthnasol ac wedi hynny bob tair blynedd ar y mwyaf.

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac un o Weinidogion Cymru

23 Hydref 2007

## ATODLEN 1

Rheoliad 5

### Cynnwys cytundeb partneriaeth

Rhaid i gytundeb partneriaeth nodi sut y mae'r awdurdod addysg lleol a chorff llywodraethu ysgol a gynhelir gan yr awdurdod addysg lleol i gyflawni eu priod swyddogaethau mewn perthynas â'r ysgol o ran y materion a nodir isod:

**1.** Mewn perthynas â phob ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol—

(a) arfer gan awdurdod addysg lleol ei swyddogaethau o dan adran 13A *(Dyletswydd i hybu safonau uchel mewn addysg gynradd ac uwchradd)* o Ddeddf 1996 mewn perthynas â'r cymorth a rydd yr awdurdod addysg lleol i'r corff llywodraethu pan–

(i) fo'r awdurdod addysg lleol wedi arfer ei bwerau o dan adrannau 14(**6**)*(Pwerau ymyrryd sy'n arferadwy gan AALl)*, 15(**7**)*(Achosion pan gaiff AALl arfer pwerau ymyrryd)*, 16(**8**) (Pwerau AALl i benodi llywodraethwyr ychwanegol), a 17(**9**)*(Pŵer AALl i atal dros dro yr hawl i gyllideb ddirprwyedig)* o Ddeddf 1998; neu

(ii) yn sgil arolygiad o'r ysgol o dan Ran 1 o Ddeddf 2005, mae'r Prif Arolygydd wedi rhoi hysbysiad i Weinidogion Cymru a'r awdurdod addysg lleol o dan adran 37(2) *(Dyletswydd i hysbysu pan fo arolygiad yn dangos bod ysgol a gynhelir yn peri pryder)* mewn achos sy'n dod o fewn is-adran 1(a) neu (b);

(b) darparu hyfforddiant a chymorth i lywodraethwyr gan yr awdurdod addysg lleol o dan adran 22 *(Hyfforddiant a chymorth i lywodraethwyr)*;

(c) darparu adroddiadau yn rheolaidd gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol o dan adran 30(3)(**10**)*(Adroddiadau llywodraethwyr a gwybodaeth arall)* o Ddeddf 2002;

(ch) arfer gan awdurdod addysg lleol neu gorff llywodraethu o swyddogaethau o dan adrannau 2 *(Dyletswyddau cyffredinol cyflogwyr at eu cyflogeion)*, 3 *(Dyletswyddau cyffredinol cyflogwyr a phobl hunangyflogedig at bersonau nad ydynt yn gyflogeion iddynt)* a 4 *(Dyletswyddau cyffredinol personau sy'n ymwneud â mangreoedd i bersonau nad ydynt yn gyflogeion iddynt)* o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974(**11**);

(d) arfer gan awdurdod addysg lleol ei bwerau ymyrryd o dan adrannau 14 *(Pwerau ymyrryd sy'n arferadwy gan AALl)*, 15 *(Achosion pan gaiff AALl arfer pwerau ymyrryd)*, a 16 *(Pŵer i benodi llywodraethwyr ychwanegol)* o Ddeddf 1998;

(**6**) Diwygiwyd adran 14(1)(b) gan Atodlen 9, paragraffau 14(1) a (2) o Ddeddf 2005. Mewnosodwyd adran 14(1A) gan Atodlen 21, paragraff 92 o Ddeddf 2002. Amnewidiwyd adran 14(3) gan Atodlen 5, paragraff 1 o Ddeddf 2002. Amnewidiwyd adran 14(3) gan Atodlen 9, paragraffau 14(1) a (2) o Ddeddf 2005. Mewnosodwyd adran 14(4) gan Atodlen 9, paragraffau 14(1) a (3) o Ddeddf 2005.

(**7**) Amnewidiwyd adran 15(4) gan Atodlen 9, paragraffau 15(1) a (2) o Ddeddf 2005. Diddymwyd adran 15(5) gan Atodlen 123, paragraffau 15(1) a (3) ac Atodlen 19, Rhan 1 o Ddeddf 2005. Amnewidiwyd adran 15(6) gan Atodlen 9, paragraffau 15(1) a (4) o Ddeddf 2005. Mewnosodwyd adran 15(7) gan Atodlen 9, Paragraffau 1 a 78 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 p.21.

(**8**) Amnewidiwyd adran 16(3) gan Atodlen 5, paragraffau 2(1) a (2) o Ddeddf 2002. Diwygiwyd adran 16(3) gan Atodlen 9, paragraffau 16(1) a (2)(a) o Ddeddf 2005. Amnewidiwyd adran 16(3)(a) gan Atodlen 9, paragraffau 16(1) a (2)(b) o Ddeddf 2005. Diddymwyd adran 16(4) gan Atodlen 5, paragraffau 2(1) a (3) ac Atodlen 22, Rhan 3 o Ddeddf 2002. Diwygiwyd adran 16(5) gan Atodlen 21, paragraffau 93(1) a (2) o Ddeddf 2002. Diwygiwyd adran 16(6)(a) gan Atodlen 5, paragraffau 2(1) a (4) o Ddeddf 2002. Diwygiwyd adran 16(8)(a) gan Atodlen 5, paragraffau 2(1) a (5)(a) o Ddeddf 2002. Amnewidiwyd adran 16(8)(b) gan Atodlen 5, paragraffau 2(1) a (5)(b) o Ddeddf 2002. Amnewidiwyd adran 16(9) gan Atodlen 5, paragraffau 2(1) a (6) o Ddeddf 2002. Diwygiwyd adran 16(9)(a) gan Atodlen 9, paragraffau 16(1) a (3) o Ddeddf 2005. Diwygiwyd adran 16(10) gan Atodlen 21, paragraffau 93(1) a (3) o Ddeddf 2002. Mewnosodwyd adran 16(12A) gan Atodlen 5, paragraffau 2(1) a (7) o Ddeddf 2002. Diddymwyd adran 16(13) gan Atodlen 5, paragraffau 2(1) ac (8) ac Atodlen 22 Rhan 3.

(**9**) Amnewidiwyd adran 17(3) gan Atodlen 5, paragraffau 3(1) a (2) o Ddeddf 2002. Diwygiwyd adran 17(3) gan Atodlen 9, paragraff 18(a) o Ddeddf 2005. Amnewidiwyd adran 17(3)(a) gan Atodlen 9, paragraff 18(b) o Ddeddf 2005. Diwygiwyd adran 17(4) gan Atodlen 5, paragraffau 3(1) a (3) o Ddeddf 2002.

(**10**) Diwygiwyd gan adran 103(1)(b) o Ddeddf 2005.

(**11**) 1974 p.37. Diddymwyd adran 2(5) gan Ddeddf Diogelu Cyflogaeth 1975, adrannau 116, 125(3), Atodlen 15, paragraff 1 ac Atodlen 18. Diwygiwyd adran 2(7) gan yr un darpariaethau.

(dd) arfer gan gorff llywodraethu ei swyddogaethau o dan adran 40(2) *(Datganiad i'w baratoi gan yr awdurdod addysg lleol)* o Ddeddf 2005;

(e) arfer gan yr awdurdod addysg lleol a chorff llywodraethu ysgol eu priod swyddogaethau o dan adran 40 *(Rheoli mangreoedd ysgol)* o Ddeddf 1998 ac Atodlen 13 iddi *(Rheoli mangreoedd ysgol gan gyrff llywodraethu)* o ran rheoli mangreoedd ysgol;

(f) arfer gan y corff llywodraethu ei bwerau o dan adran 27(**12**)*(Pŵer corff llywodraethu i ddarparu cyfleusterau cymunedol etc.)* o Ddeddf 2002.

**2.** O ran ysgol sy'n darparu addysg gynradd–

(a) arfer gan awdurdod addysg lleol ei swyddogaethau o dan adran 13A *(Dyletswydd i hybu safonau uchel mewn addysg gynradd ac uwchradd)* o Ddeddf 1996 ac arfer gan gorff llywodraethu ei swyddogaethau o dan reoliad 3(2) *(Cynlluniau Pontio)* o Reoliadau Trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006(**13**)o ran datblygu trosglwyddo addysgol effeithiol ar gyfer disgyblion o'r ail gyfnod allweddol i'r trydydd cyfnod allweddol;

(b) gosod gan awdurdod addysg lleol dargedau o dan reoliadau 3 a 4 *(Awdurdodau i baratoi a chyhoeddi cynllun addysg sengl)* ac Atodlen 2 paragraff 7(2)(a) o Reoliadau'r Cynllun Addysg Sengl (Cymru) 2006(**14**);

(c) sefydlu gan gorff llywodraethu dargedau o dan reoliad 4 *(Targedau perfformiad ar gyfer disgyblion yn yr ail gyfnod allweddol)* o Reoliadau Addysg (Targedau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb) (Cymru) 1999(**15**).

**3.** O ran ysgol sy'n darparu addysg uwchradd–

(a) Arfer gan awdurdod addysg lleol ei swyddogaethau o dan adran 13A *(Dyletswydd i hybu safonau uchel mewn addysg gynradd ac uwchradd)* o Ddeddf 1996 ac arfer gan gorff llywodraethu ei swyddogaethau o dan reoliad 3(2) *(Cynlluniau Pontio)* o Reoliadau Trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd (Cymru) 2006 mewn perthynas â datblygu trosglwyddo addysgol effeithiol ar gyfer disgyblion o'r ail gyfnod allweddol i'r trydydd cyfnod allweddol ac o'r trydydd cyfnod allweddol i'r pedwerydd cyfnod allweddol;

(b) gosod gan gorff llywodraethu dargedau o dan reoliad 7 *(Targedau absenoldeb)* o Reoliadau Addysg (Targedau Perfformiad Ysgol a Thargedau Absenoldeb) (Cymru) 1999(**16**);

(c) sefydlu gan awdurdod addysg lleol dargedau o dan reoliadau 3 a 4 *(Paratoi a chyhoeddi cynlluniau addysg sengl)* ac Atodlen 2 paragraff 7(2)(a) i (dd) o Reoliadau'r Cynllun Addysg Sengl (Cymru) 2006.

**4.** O ran ysgol sy'n darparu addysg uwchradd, heblaw ysgol arbennig gymunedol, ysgol arbennig sefydledig neu ysgol a leolir mewn ysbyty, gosod gan yr awdurdod addysg lleol dargedau o dan reoliadau 3 a 4 *(Paratoi a chyhoeddi cynlluniau addysg sengl)* ac Atodlen 2 paragraffau 3 a 4 *(Materion i ymdrin â hwy mewn cynlluniau addysg sengl)* a Rheoliadau'r Cynllun Addysg Sengl (Cymru) 2006.

**5.** Mewn perthynas ag ysgol sy'n darparu addysg uwchradd, heblaw ysgol a leolir mewn ysbyty, gosod gan awdurdod addysg lleol dargedau o dan reoliad 3 *(Paratoi a chyhoeddi cynlluniau addysg sengl)* ac Atodlen 2 paragraff 2 *(Materion i ymdrin â hwy mewn cynlluniau addysg sengl)* o Reoliadau'r Cynllun Addysg Sengl (Cymru) 2006.

---

(**12**) Mewnosodwyd adran 28(4A) a (4B) gan adran 188(3) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40).
(**13**) O.S. 2006/520 (Cy.64).
(**14**) O.S. 2006/877 (Cy.82).
(**15**) O.S. 1999/1811, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/2914 (Cy.253).
(**16**) Amnewidiwyd rheoliad 7 gan O.S. 2006/125 (Cy.18), rheoliad 2(1)(4).

**6.** Mewn perthynas ag ysgol wirfoddol a gynorthwyir, dyletswydd yr awdurdod addysg lleol o dan adran 22(5)(**17**)*(Dyletswydd AALl i gynnal ysgol wirfoddol a gynorthwyir)* o Ddeddf 1998 i dalu holl dreuliau cynnal yr ysgol ac eithrio unrhyw dreuliau sydd yn rhinwedd paragraff 3 o Atodlen 3 *(Cyllido ysgolion gwirfoddol, ysgolion sefydledig ac ysgolion arbennig sefydledig)* o Ddeddf 1998 yn daladwy gan y corff llywodraethu.

**7.** Mewn perthynas ag ysgol nad yw'n ysgol wirfoddol a gynorthwyir, dyletswydd yr awdurdod addysg lleol o dan adran 22(3) *(Dyletswydd AALl i gynnal ysgol gymunedol, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir)* neu adran 22(4)(**18**)*(Dyletswydd AALl i gynnal ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol arbennig sefydledig)* fel y bo'n briodol, o Ddeddf 1998, i dalu holl dreuliau cynnal yr ysgol.

## ATODLEN 2

Rheoliad 3(1)

### Adnewyddu ac adolygu cytundeb partneriaeth

**Tabl**

| *Colofn 1* | *Colofn 2* |
|---|---|
| Mae'r Prif Arolygydd wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i awdurdod addysg lleol a Gweinidogion Cymru o dan adran 37(2) *(Dyletswydd i hysbysu pan fo arolygiad yn dangos bod ysgol a gynhelir yn peri pryder)* o Ddeddf 2005. | Dyddiad yr hysbysiad. |
| Mae awdurdod addysg lleol o dan adran 16(1) *(Pŵer AALl i benodi llywodraethwyr ychwanegol)* o Ddeddf 1998 yn penodi nifer y llywodraethwyr ychwanegol y mae'n barnu ei bod yn addas. | Dyddiad y penodiad neu'r penodiadau. |
| Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 19(1)(**19**)*(Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo cau ysgol)* o Ddeddf 1998 i awdurdod addysg lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgol a gynhelir gan yr awdurdod addysg lleol gael ei chau. | Dyddiad y cyfarwyddyd. |
| Mae Gweinidogion Cymru o dan adran 113A(5A)(a) *(Ailstrwythuro addysg chweched dosbarth)* o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**20**) yn cadarnhau, gyda neu heb addasiad neu'n ddarostyngedig i ddigwyddiad, cynigion a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 113A(4) (b) ac (c) o'r Ddeddf honno. | Dyddiad y gymeradwyaeth. |

(**17**) Diwygiwyd adran 22(5)(a) gan Atodlen 21, paragraffau 96(1) a (4) o Ddeddf 2002.
(**18**) Diwygiwyd adran 22(4)(b) gan Atodlen 21, paragraff 96(1) a (3) o Ddeddf Addysg 2002.
(**19**) Amnewidiwyd adran 19(1) gan adran 45 o Ddeddf 2005.
(**20**) 2000 p.21. Mewnosodwyd adran 113A gan adran 2 o Ddeddf 2002.

| *Colofn 1* | *Colofn 2* |
|---|---|
| Mae Gweinidogion Cymru o dan baragraff 8(**21**)*(Cymeradwyo cynigion aildrefnu ysgolion)* o Atodlen 6 *(Cynigion statudol: gweithdrefn a gweithrediad)* i Ddeddf 1998 yn cymeradwyo cynigion a gyhoeddir o dan adrannau 28(**22**)*(Cynigion ar gyfer sefydlu neu newid ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol)* neu 31(**23**)*(Cynigion ar gyfer sefydlu, newid neu gau ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig)* o Ddeddf 1998 i wneud unrhyw un o'r newidiadau a geir ym mharagraffau 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 o Atodlen 2 *(Newidiadau y mae'n rhaid cyhoeddi cynigion ar eu cyfer)* i Reoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999(**24**) a pharagraffau 1, 2, 3 a 4 o Atodlen 2A *(Newidiadau i ysgolion meithrin y mae'n rhaid cyhoeddi cynigion ar eu cyfer)* o'r rheoliadau hynny o ran ysgol a gynhelir gan awdurdod. | Dyddiad y dyfarniad. |
| Pan, o dan baragraff 8 o Atodlen 6 *(Cymeradwyo cynigion aildrefnu ysgol)* i Ddeddf 1998 na fo cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru yn ofynnol, mae awdurdod addysg lleol corff llywodraethu ysgol wedi dyfarnu y dylid gweithredu'r cynigion os cyhoeddwyd y cynigion o dan adrannau 28 *(Cynigion ar gyfer sefydlu neu newid ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol)* neu 31 *(Cynigion ar gyfer sefydlu, newid neu gau ysgol gymunedol arbennig, neu ysgol arbennig sefydledig)* o Ddeddf 1998 i wneud unrhyw un o'r newidiadau a geir ym mharagraffau 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 o Atodlen 2 *(Newidiadau y mae'n rhaid cyhoeddi cynigion ar eu cyfer)* i Reoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 a pharagraffau 1, 2, 3 a 4 o Atodlen 2A *(Newidiadau i ysgolion meithrin y mae'n rhaid cyhoeddi cynigion ar eu cyfer)* o'r rheoliadau hynny o ran ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol. | Dyddiad y mabwysiad neu'r gymeradwyaeth. |
| Mae Gweinidogion Cymru o dan baragraff 14(**25**) o Atodlen 7 *(Mabwysiadu cynigion gan Weinidogion Cymru)* i Ddeddf 1998 yn | Dyddiad y gymeradwyaeth. |

(**21**) Diddymwyd paragraff 8(4) gan Atodlen 5, Rhan 1 o Ddeddf Plant 2004 p.31.
(**22**) Diwygiwyd adran 28(2) gan Atodlen 19, rhan 2 o Ddeddf 2002. Mewnosodwyd adrannau 28(2A) a (2B) gan adrannau 64(1) a (3) o Ddeddf 2005.
(**23**) Amnewidiwyd adran 31(4) gan adran 31(4A) i (4C) gan adran 71 o Ddeddf 2005.
(**24**) O.S. 1999/1671 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/908 (Cy.91).
(**25**) Diwygiwyd paragraff 14 gan adran 72 o Ddeddf 2005.

| *Colofn 1* | *Colofn 2* |
|---|---|
| mabwysiadu neu'n cymeradwyo cynigion sy'n effeithio ar ysgol a gynhelir gan awdurdod addysg lleol. | |
| Mae Gweinidogion Cymru o dan adrannau 28 *(Cynigion ar gyfer sefydlu neu newid ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol)* neu 31 *(Cynigion ar gyfer sefydlu, newid neu gau ysgol arbennig gymunedol neu ysgol arbennig sefydledig)* o Ddeddf 1998 a pharagraff 8 *(Cymeradwyo cynigion)* o Atodlen 6 *(Gweithdrefn a gweithrediad ar gyfer cynigion statudol)* i'r Ddeddf honno, fel y'i haddaswyd gan Reoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001(**26**) yn cymeradwyo cynigion a gyhoeddir o dan baragraff 2 *(Gweithdrefn ar gyfer newid categori ysgol)* neu 3 *(Cyhoeddi gorfodol y cynigion i ysgol wirfoddol a gynhelir newid categori)* o Atodlen 8 *(Newidiadau i gategori ysgol)* i Ddeddf 1998. | Dyddiad y gymeradwyaeth. |
| Mae awdurdod addysg lleol, o dan adran 51 *(Atal dros dro ddirprwyo ariannol oherwydd camreoli etc)* o Ddeddf 1998 a pharagraff 1 o Atodlen 15(**27**) iddi *(Atal dros dro ddirprwyo ariannol oherwydd camreoli etc.)* yn rhoi i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir ganddo hysbysiad o'r atal dros dro o hawl y corff llywodraethu i gyllideb ddirprwyedig. | Dyddiad yr hysbysiad. |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod dyletswyddau ar bob awdurdod addysg lleol yng Nghymru o ran pob ysgol a gynhelir ganddynt gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir, ond ac eithrio unedau cyfeirio disgyblion. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gosod dyletswyddau ar gyrff llywodraethu'r cyfryw ysgolion.

O dan y Rheoliadau hyn, mae'n ofynnol i awdurdodau addysg lleol wneud cytundebau partneriaeth unigol â chyrff llywodraethu'r cyfryw ysgolion. Pan fo awdurdod addysg lleol a chorff llywodraethu yn methu â dod i gytundeb, mae adran 197(3) o Ddeddf Addysg 2002 yn caniatáu i'r awdurdod addysg lleol lunio datganiad mewn perthynas â'r ysgol honno.

(**26**) O.S. 2001/2678 (Cy.219), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/2916 (Cy.213).
(**27**) Diwygiwyd paragraff 1 gan Atodlen 3, paragraff 5 o Ddeddf 2002.

Rhaid i unrhyw gytundeb partneriaeth neu ddatganiad nodi sut y mae'r awdurdod addysg lleol a chorff llywodraethu ysgol i gyflawni eu priod swyddogaethau mewn perthynas â materion penodol a bennir ac a nodir yn y Rheoliadau hyn.

Hefyd, mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer adolygu cytundeb partneriaeth neu ddatganiad ar adegau gosodedig neu o dan amgylchiadau rhagnodedig.